Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gymunedol Bancffosfelen

Bancffosfelen
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5DR

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Bancffosfelen

Enw'r darparwr	Ysgol Gymunedol Bancffosfelen
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Gâr
Iaith y darparwr	Cymraeg
Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	Categori 3
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	*
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	48
Disgyblion o oedran ysgol statudol	43
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	0
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%)	8.50%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%)	*
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	32.60%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.00%
Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon	Nac ydy

Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2024
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	04/06/2018
Dyddiad dechrau'r arolygiad	21/09/2026

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae staff Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol i ddisgyblion. Maent yn hyrwyddo gofal a lles yn effeithiol ac yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â'r disgyblion sy'n hyrwyddo'r dysgu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ymddygiad cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn eu cefnogi i ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn, ac mae staff yn cydweithio'n effeithiol i wireddu gweledigaeth yr ysgol. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddathlu profiadau dysgu'r disgyblion gyda rhieni a'r gymuned yn ehangach.

Mae staff yn darparu cwricwlwm cynhwysfawr ac ysgogol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn fedrus. Maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn paratoi tasgau priodol er mwyn cefnogi eu cynnydd o'u mannau cychwyn amrywiol. Er hyn, nid yw'r tasgau'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol bob amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd da. Maent yn darllen yn hyderus, yn mwynhau ystod eang o destunau ac yn ysgrifennu at wahanol ddibenion. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n gyson yn ystod eu hamser yn yr ysgol, ond nid yw'r disgyblion bob amser yn adeiladu ar eu medrau llafar a chyfathrebu yn ddigon effeithiol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso effeithiol i adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Maent yn darparu dysgu proffesiynol i staff yn fuddiol er mwyn cefnogi eu datblygiad yn dda. Mae partneriaethau cryf â rhieni, y cylch meithrin a'r ysgolion uwchradd yn cefnogi disgyblion i baratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Parhau i ddatblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion

A2 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Mae Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac yn rhannu gweledigaeth glir a phwrpasol yn llwyddiannus gyda staff, disgyblion a rhieni. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ohono'i hun ac eraill ac mae'n cael ei gefnogi gan dîm o staff ymroddgar sy'n cydweithio'n effeithiol i hyrwyddo lles, dysgu a datblygiad pob disgybl. O ganlyniad, mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol a pharchus yn treiddio drwy fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus eu bod yn cael eu trin yn deg.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n ysgogi diddordeb disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfleu eu syniadau a'u diddordebau i'r ddarpariaeth fel rhan annatod o'r broses gynllunio. Mae'r disgyblion yn cael profiadau amrywiol i ddathlu eu gwaith gyda'u rhieni a'r gymuned ehangach, er enghraifft wrth i ddisgyblion gymhwyso eu medrau creadigol trwy'r dull 'Baftas y Banc'.

Rhoddir sylw cyson gan staff i'r ardal leol fel sbardun ar gyfer dysgu, sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u cynefin a'r byd ehangach yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'u rôl fel dinasyddion gwybodus a moesol, fel wrth i'r disgyblion ieuengaf arbrofi gyda gwaith celf arlunwyr enwog fel rhan o weithgareddau mis Hanes Pobl Dduon. Caiff disgyblion brofiadau buddiol er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o wahanol grefyddau sy'n meithrin eu hagweddau ysbrydol yn werthfawr.

Mae staff yn gwneud defnydd bwriadus o'r amgylchedd dysgu, y tu mewn a'r tu allan, i ddarparu profiadau sy'n ennyn chwilfrydedd a dychymyg disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u tasgau ac yn dangos diddordeb parhaus yn eu dysgu. Maent yn archwilio syniadau newydd ac yn mynd ati'n hyderus i ddatrys problemau. Maent yn cydweithio'n dda mewn parau a grwpiau ac yn gwneud defnydd da o adnoddau i gefnogi eu dysgu. At ei gilydd, mae athrawon yn paratoi darpariaeth gyfoethog o dasgau ble mae disgyblion yn ymgolli yn eu dysgu. Er hyn, nid yw'r tasgau'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol bob amser.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn ymateb yn dda i holi treiddgar staff ac i gyfraniadau eu cyfoedion. Wrth symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu hyder cynyddol ac yn dyfalbarhau'n llwyddiannus wrth gwblhau tasgau.

Mae athrawon yn rhoi pwyslais ar ddatblygu cywirdeb iaith y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn modelu geirfa a phatrymau iaith perthnasol yn gyson ac yn annog disgyblion i'w defnyddio yn eu hymatebion. Maent yn defnyddio gweithgareddau llafar yn bwrpasol i ennyn a chynnal diddordeb disgyblion ac yn cyflwyno geirfa sy'n berthnasol i'r gweithgareddau. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymateb i adborth, ac, ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud gwelliannau pwrpasol i'w gwaith.

Mae medrau llafar disgyblion yn datblygu'n gyson yn ystod eu hamser yn yr ysgol. O oedran cynnar, maent yn gwrando'n oddefgar ar gyflwyniadau oedolion, ac ar ei gilydd, gan barchu cyfraniadau eraill yn dda. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob amser yn adeiladu ar eu medrau llafar a chyfathrebu yn Gymraeg yn ddigon effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos agwedd gadarnhaol at ddarllen ac yn siarad yn frwdfrydig am lyfrau a storïau. Maent yn cydnabod gwerth darllen fel modd o ddefnyddio'u dychymyg a chael eu cludo i 'fyd gwahanol'. Mae hyn yn adlewyrchu diwylliant darllen cadarnhaol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn caffael adnabyddiaeth gynnar o seiniau llythrennau ac yn dechrau eu cyfuno'n fedrus i ddarllen geiriau cyfarwydd a llai cyfarwydd yn gywir. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda rhuglder cynyddol ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r testunau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol drwy greu marciau pwrpasol gan ddefnyddio amrywiaeth dda o adnoddau i'w cefnogi. Wrth iddynt ddatblygu eu medrau, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod addas o ffurfiau ac at ddibenion gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o rif drwy brofiadau ymarferol ystyrlon. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu gwybodaeth am waith rhif yn effeithiol i ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol yn effeithiol ac yn eu defnyddio mewn ystod addas o feddalwedd yn hyderus i gyflwyno a rhannu eu dysgu.

Rhoddir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn chwarae rôl ystyrlon wrth gynllunio ac arwain digwyddiadau a mentrau ysgol gyfan. Maent yn dechrau deall eu cyfrifoldebau o ran gwella gwahanol agweddau sydd, yn ei dro, yn datblygu eu medrau arwain a chyfrifoldeb yn effeithiol.

Mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn defnyddio ystod effeithiol o weithdrefnau hunanwerthuso i fesur effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Trwy

arsylwadau dysgu, craffu ar waith a thrafodaethau proffesiynol, maent yn datblygu dealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae arweinwyr yn darparu trefniadau dysgu proffesiynol pwrpasol i staff sy'n eu helpu ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r trefniadau hyn yn cyd-fynd ag anghenion addysgu staff, dysgu'r disgyblion a blaenoriaethau gwella'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae staff yn paratoi'r disgyblion yn fuddiol ar gyfer eu cam dysgu nesaf. Mae hyn yn dechrau'n gynnar, ac yn cael ei hwyluso trwy sefydlu partneriaethau effeithiol â'r cylch meithrin lleol sydd wedi ei leoli ar y safle. Yn ogystal, mae trefniadau pontio â'r ysgolion uwchradd lleol yn llwyddiannus sy'n cefnogi disgyblion i feithrin hyder fel rhan o'r trefniadau trosglwyddo buddiol.

Mae'r berthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryfder. Mae'r pennaeth yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am gynnydd disgyblion a gweithgareddau'r ysgol yn amserol.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn addas, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/11/2026